PWYLLGOR CRAFFU
LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

22 EBRILL 2024

PRESENNOL Cynghorydd K. Madge (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

K. Davies	S.M. Allen	P. Cooper	N. Lewis
G.B. Thomas			

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

T.A.J. Davies	D.C. Evans	T.M. Higgins	J.D. James
S. Godfrey-Coles	D. Thomas		

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

- Y Cynghorydd A. Vaughan Owen, Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd;
- Y Cynghorydd E. Thomas, Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith.
- Y Cynghorydd A. Lenny, Yr Aelod Cabinet dros Adnoddau;

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
D.W. John, Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol;
R. James, Cyfrifydd Grŵp;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
C. Ferguson, Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad;
H. Neil, Uwch-swyddog Diogelu Defnyddwyr;
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau.

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 11:25yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B.D.J. Phillips.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod(ion)	Y Math o Fuddiant
G.B Thomas	5. Asesiadau o Asedau Hawliau Tramwy Cyhoeddus	Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn croesi tir y mae'n berchen arno.
T.A.J. Davies	5. Asesiadau o Asedau Hawliau Tramwy Cyhoeddus	Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn croesi tir y mae'n berchen arno.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. STRATEGAETH TRAWSNEWID CERBYDAU ALLYRIADAU ISEL IAWN (ULEV)

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i adroddiad oedd yn darparu gwybodaeth a diweddariad am ddatblygu'r Strategaeth Trawsnewid i Fflyd Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV).

Nododd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, yn ogystal â datganiad Argyfwng Newid Hinsawdd y Cyngor Sir ym mis Chwefror 2019 a'r targed dilynol o ddod yn sefydliad Sero Net erbyn 2030, fod Llywodraeth Cymru wedi nodi ei disgwyliadau o ran fflydoedd y sector cyhoeddus yn ei strategaeth yn 2019, sef 'Ffyniant i Bawb – Cymru Carbon Isel', gan nodi ei huchelgeisiau i bob car newydd a cherbyd nwyddau ysgafn fod yn gerbydau allyriadau isel iawn erbyn 2025 a phob cerbyd nwyddau trwm erbyn 2030.

Nododd yr Aelodau fod milltiredd fflyd y Cyngor yn cyfrif am 19% o'i ôl troed carbon a oedd yn gyfran sylweddol o'r effaith carbon yn gyffredinol. Prif nod y Cyngor oedd lleihau effaith ei weithrediadau fflyd ar yr amgylchedd ac ymdrechu i gyflawni gweledigaeth y Cyngor o gael y fflyd cerbydau di-garbon cynaliadwy gorau posibl erbyn 2030. Byddai'r Strategaeth Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn yn ceisio nodi'r rhaglen gyflenwi strategol i gyflawni'r nodau hyn.

Amlinellodd yr adroddiad y sefyllfa bresennol ynghyd â dadansoddiad TEEP cynhwysfawr ac yna'r heriau yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu.

Gwnaed y sylwadau/arsylwadau/ymholiadau canlynol:

- Estynnwyd diolch i'r swyddogion am adroddiad llawn gwybodaeth. Dywedwyd y byddai hwn yn gyfle i gyrff gwasanaethau cyhoeddus arbed swm sylweddol o arian yn ogystal â'r manteision amgylcheddol ac ymarferol.

  Awgrymwyd y byddai prynu'r cerbydau trydan drwy'r model 'Talu wrth Arbed' yn fanteisiol oherwydd gellid prynu cerbydau trydan yn gymharol rhad, ymlaen llaw, a hynny drwy gynllun prydlesu am gyfnod rhwng 8 a 10 mlynedd. Yn ogystal, dywedwyd bod cerbydau trydan yn rhatach ac yn haws i'w cynnal. Roedd llawer o fanteision o ran costau i gael fflyd drydan a fyddai'n cael ei chyflawni yn y tymor hir.

  Awgrymwyd peidio â gwefru'r cerbydau yn ystod oriau brig/cyfraddau brig. Awgrymwyd bod yr Awdurdod yn negodi 'tariff amser defnydd'. Dros nos yw'r amser mwyaf cost-effeithiol. Yn ogystal, byddai angen darparu hyfforddiant ynghyd ag arferion gwefru er mwyn sicrhau dull cyson a chost-effeithiol.

  Nododd yr Aelod Cabinet fod y tîm trafnidiaeth yn parhau i gyfathrebu ag arbenigwyr sy'n darparu cymorth, cyngor ac arweiniad. Ychwanegodd y

Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol eu bod ar hyn o bryd yn ceisio darparu cynllun trawsnewid cadarn, cynaliadwy a fforddiadwy i'r Cyngor a fyddai'n cynnwys y cerbydau a'r seilwaith gwefru cerbydau trydan o amgylch y Sir. Byddai'r cynllun hefyd yn cynnwys yr arferion gwefru, yr hyfforddiant a'r hyfforddiant cynnal a chadw. Cydnabuwyd bod trawsnewid i gerbydau trydan yn gynllun tymor hir, ond roedd cam sylweddol wedi'i wneud i gyflwyno'r Cerbydau Allyriadau Isel Iawn ac roedd sicrhau y byddai'r trawsnewid yn gynaliadwy yn y tymor hir yn allweddol.

- Codwyd pryderon ynghylch y pwysau ar hyn o bryd ar y gyllideb a'r beichiau ychwanegol o ran costau a allai ddeillio o hyn, gan ddechrau gyda phrynu cerbydau trydan sydd rhwng o leiaf 20% a 30% yn ddrutach na cherbydau safonol, a fyddai'n gost sylweddol i fflyd.

  Mae pryderon pellach ynghylch costau'r yswiriant a allai fod 30% yn fwy oherwydd gwaredu batris lithiwm, a'r gost ychwanegol i'r Cyngor o ran defnyddio trydan a chostau gwasanaethu a chynnal a chadw gan nad oes gan lawer o garejis y gallu i gynnal a chadw cerbydau trydan.

  Dywedodd yr Aelod Cabinet, mewn ymateb i'r pryderon, y byddai angen cryn dipyn o ymchwil i symud ymlaen a byddai angen ystyried yr holl fodelau economaidd sydd ar gael. O ran cynnal a chadw cerbydau trydan, cydnabuwyd y byddai angen gwella sgiliau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael i gynnal a chadw cerbydau. Rhoddodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol sicrwydd y byddai'r cynllun yn sicrhau bod y fflyd yn fforddiadwy yn y tymor hir ynghyd ag ystyriaethau mewn perthynas â nifer y cerbydau gofynnol ar y fflyd, mwy o ddefnydd a rhannu cerbydau ar draws gwasanaethau i leihau nifer y cerbydau. Byddai hyn yn cyd-fynd â gwerthusiadau ynghylch sut y gallai'r Cyngor barhau i ddatgarboneiddio mewn modd fforddiadwy. O ran sgiliau yn Sir Gaerfyrddin i gynnal a chadw cerbydau trydan, rhoddwyd gwybod bod yr adran drafnidiaeth yn gweithio gydag Academi Sgiliau Gwyrdd Coleg Sir Gâr i ddatblygu prosbectws ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac un o'r elfennau oedd cynnal a chadw cerbydau trydan.

  O ran gwaredu batris, dywedodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol fod trafodaethau'n cael eu cynnal ar lefel genedlaethol gyda'r 22 awdurdod lleol arall yng Nghymru o ran ystyried y deunyddiau gwastraff problemus, gan gynnwys batris.

- Cyfeiriwyd at y blwch sy'n darparu Manylion Safle Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan a phwyntiau gwefru chwim. Gofynnwyd a fyddai pwyntiau gwefru trydan y Cyngor ar gael i'r cyhoedd. Eglurodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol, er mwyn osgoi methiant yn y gwasanaeth, fod yn rhaid i bwyntiau gwefru sy'n eiddo i'r Cyngor barhau i fod yn flaenoriaeth i'r fflyd trwy fod ar gael bob amser. Byddai rhoi mynediad llawn i ddepos y Cyngor sydd â mynediad cyfyngedig yn creu her o ran diogelwch ac felly nid oedd hyn yn opsiwn. Ond dywedwyd bod pwyntiau gwefru ar gael i'r cyhoedd mewn lleoliadau fel canolfannau hamdden yn ogystal â'r maes parcio yn Llanymddyfri. Nodwyd y byddai dadansoddiad o fylchau'n cael ei gynnal mewn perthynas â'r seilwaith gwefru er mwyn gwella mynediad at wefru trydan ledled Sir Gaerfyrddin.

- Cyfeiriwyd at baragraff 3.12 '....a fydd yn gweld cynnydd yng nghyfran y fflyd Cerbydau Trydan o 1.8% i 8% erbyn 31 Mawrth 2024.' Gofynnwyd a oedd diweddariad mewn perthynas â'r wythnosau diwethaf, a nododd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol nad oedd unrhyw bryniannau/dosbarthiadau fflyd pellach mewn 3 wythnos, felly arhosodd y ffigur yn 8%.

- Gofynnwyd a oedd unrhyw bosibilrwydd o ddefnyddio paneli solar i wefru'r fflyd drydan. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol fod yna gyd-ddibyniaethau ar draws sawl adran. Nodwyd bod datgarboneiddio stoc adeiladau'r Cyngor yn flaenoriaeth ac er bod buddsoddi mewn cyfleusterau ynni adnewyddadwy a phaneli solar yn cael ei ystyried i bweru adeiladau, roedd capasiti ychwanegol i wefru cerbydau hefyd yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Strategaeth Trawsnewid i Fflyd Cerbydau Allyriadau Isel Iawn.

5. ASESIADAU O ASEDAU HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS

[Sylwer: Gan iddynt ddatgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, arhosodd y Cynghorydd Gareth Thomas a'r Cynghorydd Arwel Davies yn y cyfarfod, ond ni chymerasant ran yn y broses o ystyried yr eitem trafodaethau na phleidleisio ar yr eitem hon].

Cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried oedd yn darparu'r asesiad o asedau Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PROW) sydd ar ddod, a oedd yn cynnwys rhesymeg dros yr asesiad, manylion am sut y byddai'n cael ei gyflawni, y manteision a'r risgiau. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y pwnc hwn yn dod o dan gylch gwaith yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd a aeth ymlaen i gyflwyno'r adroddiad.

Nodwyd bod y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin yn fwy na 2500km gyda thua 3176 o lwybrau a gofnodwyd yn unigol ar draws pob un o'r 72 Cyngor Tref a Chymuned. Byddai cwblhau asesiad o asedau yn darparu cofnod cyflawn o asedau Hawliau Tramwy Cyhoeddus yr Awdurdod Lleol ar draws y rhwydwaith cyfan.

Codwyd y sylwadau/arsylwadau/ymholiadau canlynol:

- Gofynnwyd a oedd unrhyw bosibilrwydd o weithio mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned. Eglurodd y Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad fod rhaglen cynnal a chadw'r Cyngor Tref a Chymuned wedi dod i ben oherwydd dim ond ychydig o Gynghorau Tref a Chymuned oedd yn cael eu cefnogi'n ariannol i wneud gwaith ar gyfer yr Awdurdod ac, yn dilyn cyfrifiad, canfuwyd pe bai rhagor o Gynghorau Tref a Chymuned yn ymuno â'r cynllun, na fyddai'n bosibl i'r Awdurdod barhau i gefnogi'n ariannol 72 o Gynghorau posibl ar draws Sir Gaerfyrddin. Gan gydnabod y system annheg, cafodd ei symud yn fewnol, ond nodwyd bod anawsterau ac, yn dilyn adolygiad pellach, roedd yr Awdurdod yn gweithio gyda nifer o Gynghorau Tref a Chymuned ond gan ddefnyddio mwy o'u praesept eu hunain i gwmpasu'r gwaith.

Nodwyd mai'r dull tymor hwy fyddai gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned ond yn wirfoddol. Roedd gweithlu gwirfoddol wedi'i sefydlu oedd yn cynnwys dros 100 o wirfoddolwyr hyd yma a byddent yn gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ar ran yr Awdurdod. Gwnaed gwaith hyrwyddo ar y cynllun gwirfoddoli, a hynny ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gan anfon gohebiaeth at bob Cyngor Tref a Chymuned a datganiadau i'r wasg. Byddai rhagor o ymgyrchoedd recriwtio gwirfoddolwyr yn cael eu cynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Dywedwyd y dylid cynnwys torri glaswellt yn y bartneriaeth gan weithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned.

Awgrymwyd y dylai Cynghorau Tref a Chymuned gael mewnbwn ynghylch pa ran o'r rhwydwaith sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer cynnal a chadw. Eglurodd y Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad y cysylltwyd â'r holl Gynghorau Tref a Chymuned pan sefydlwyd yr Hierarchaeth Rhwydwaith lle gofynnwyd i bob Cyngor Cymuned ddewis 5% o gyfanswm hyd y rhwydwaith yn ei ardal fel y gellid blaenoriaethu'r llwybrau hynny fel llwybrau categori C, a ystyriwyd yn deg, yn gymesur ac yn gyflawnadwy. Ymatebodd tua 14 o Gynghorau Tref a Chymuned a rhoddwyd eu llwybrau dethol yng nghategori C.

Gofynnwyd sut y byddai'r asesiadau'n helpu gyda Hawliau Tramwy Cyhoeddus nad oedd wedi cael eu hystyried ers blynyddoedd lawer neu rai sy'n destun materion cyfreithiol. Dywedodd y Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad nad oedd yr asesiadau o asedau'n debygol o gyfrannu at ddatrys unrhyw faterion cyfreithiol parhaus, ond gallai gyfrannu at wella gwybodaeth am sefyllfa'r rhwydwaith cyfan. Mae gallu categoreiddio'r materion a godwyd a gallu gosod ffigur mewn perthynas â nifer yr asedau a'r materion cyfreithiol ac ati yn helpu i gyfrannu at gynllun a phrosiectau sy'n edrych i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad ynghylch yr asesiadau o asedau Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael ei dderbyn.

6. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad monitro ariannol, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, ynghylch y Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2023/24 ar gyfer y Gwasanaethau Lle a Seilwaith a Diogelu'r Cyhoedd ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2023.

Dywedwyd bod y gyllideb refeniw ar y cyfan yn rhagweld gorwariant cyffredinol o £2,228k ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelwyd gwariant net yn y gyllideb gyfalaf o £15,305 o gymharu â chyllideb net weithredol o £29,143k gan roi amrywiant o £-13,838.

Nododd y Pwyllgor, mewn perthynas â'r adroddiad arbedion, mai'r disgwyl yw y byddai £982k o arbedion Rheolaethol mewn perthynas â tharged o £1,344k yn cael ei gyflawni ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ogystal, cyflwynwyd £136k o arbedion polisi mewn perthynas â tharged o £261k ar gyfer 2023/24 a rhagwelwyd y byddai hyn yn cael ei gyflawni.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu diwethaf, gan godi ar ran y Pwyllgor y pryderon ynghylch hwyrni'r adroddiadau monitro cyllideb sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu a gofynnodd am adroddiadau mwy amserol. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod yr Arweinydd yn ymwybodol o'r amserlenni, gan weithio ar hyn o bryd gyda staff cyllid i ddatrys y mater.

- Cyfeiriwyd at Atodiad B – Cerbydau Adrannol. Wrth dynnu sylw at y tanwariant o £13,000 a'r sylw cysylltiedig ynghylch 'tanddefnyddio cerbydau adrannol', gofynnwyd a oedd angen cerbydau adrannol ac a oedd posibilrwydd eu tynnu o'r fflyd. Dywedodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol fod hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad trawsnewid ar deithio staff a cherbydau adrannol.

- Mewn ymateb i sylw a godwyd ynghylch colli incwm sylweddol oherwydd peiriannau diffygiol mewn meysydd parcio, dywedodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol, er nad oedd ganddo'r amserlenni penodol wrth law ar gyfer atgyweirio, byddai gan bob peiriant talu gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r darparwr. Byddai rhagor o wybodaeth am hyn yn cael ei rhannu ag Aelodau'r Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod.

- Gwnaed sylw pellach ynghylch dyluniad y peiriannau talu yn y meysydd parcio, sef nad oeddent yn hawdd i'w defnyddio a'u bod yn her i unigolion â golwg gwael. Dywedodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol, wrth gydnabod y gallai rhai unigolion brofi rhai heriau wrth ddefnyddio'r peiriant talu, er mwyn gwella'r hygyrchedd wrth symud ymlaen, byddai adolygiad ar fesurydd yn cael ei gynnal pan fyddai'r peiriant i fod i gael ei newid. Yn ogystal, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod 'my permit app' ar waith ym mhob maes parcio yn Sir Gaerfyrddin sy'n cynnig dull syml o dalu, ond gwerthfawrogwyd unwaith eto y gallai rhai unigolion wynebu rhai heriau wrth ddefnyddio'r dull hwn.

- Cyfeiriwyd at Atodiad B – Llwybr Dyffryn Tywi. Gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch y sylw 'disgwylir y bydd pryniannau tir y cytunwyd arnynt a ffioedd cysylltiedig yn cael eu cwblhau cyn bo hir'. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod y Cyngor wedi defnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol ac wedi cynnal gwrandawiadau hir ac y byddai adroddiad yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Pwyllgor maes o law.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch arian nad oedd wedi'i wario, eglurodd Cyfrifydd y Grŵp y byddai cynlluniau heb eu gorffen yn mynd i mewn i 2024/25 fel y nodwyd.

- Dywedwyd bod y cynlluniau Re-Fit Cymru a Datgarboneiddio yn Atodiad E wedi methu'r targed yn sylweddol o ran gwariant yn 2023/24. Gan mai ymarfer arbed costau oedd hwn, gofynnwyd a oedd unrhyw werth cynyddu'r defnydd o ran effeithlonrwydd ynni, datgarboneiddio a Re-Fit Cymru i gyrraedd targedau penodol.

- Cyfeiriwyd at Gymorth Busnes ar gyfer Mentrau Ynni Adnewyddadwy yn Atodiad F. Gofynnwyd faint o waith hyrwyddo oedd wedi'i wneud ar y cynllun. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod llawer o waith hyrwyddo wedi'i wneud, ond byddai'n cysylltu â'r Tîm Cyfryngau a Chyfathrebu i wthio'r wybodaeth i'r cyhoedd a chyrraedd y gynulleidfa gywir.

- Cyfeiriwyd at gyflwyno ail gerbyd camera gorfodi, paratowyd Achos Busnes – Y Gwasanaethau Parcio o fewn Atodiad G(ii) Nid yw'r Arbedion yn unol â'r Targed. Mewn ymateb i bryder a godwyd mewn perthynas â'r trafferthion o ran caffael ail gar camera dywedodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol fod yr ail gar camera wedi'i ddarparu'n ddiweddar a'i fod yn gerbyd trydan.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf hyd at 31 Rhagfyr 2023 yn cael ei dderbyn.

7. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 11 MAWRTH 2024 A'R CYFARFOD A AILYMGYNULLWYD A GAFODD EI GYNNAL AR 22 MAWRTH 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2024, a'r cyfarfod oedd wedi'i alw ar 22 Mawrth 2024 gan eu bod yn gywir.

_____ _____

CADEIRYDD DYDDIAD